

TELERAU AC AMODAU'R PENODIAD A THÂL

Telerau Penodi ac Ailbenodi

- Mae'n swydd am dair blynedd gyda'r opsiwn i ymestyn am ddwy flynedd (heb orfod mynd trwy broses recriwtio) yn ddibynnol ar berfformiad boddhaol.
- Yn dilyn cyfnod gwasanaeth o bum mlynedd, mae modd ymestyn y penodiad am ddwy flynedd arall yn dilyn llwyddiant drwy broses recriwtio agored.
- Ni fydd unrhyw unigolyn yn cael gwasanaethu ar y Cydbwyllgor Archwilio am fwy na chyfanswm o 10 mlynedd.
- Ni fydd aelodau sy'n ymgeisio yn cael ffafriaeth dros ymgeiswyr newydd gan y Panel, bydd pob penodiad yn cael eu gwneud ar deilyngdod.
- Bydd y Cydbwyllgor Archwilio cyfarfod bedair gwaith y flwyddyn. Fe ragwelir y bydd disgwyl i chi allu neilltuo 8-10 diwrnod y flwyddyn i'r Cydbwyllgor. Bydd hyn yn cynnwys amser paratoi ar gyfer amser darllen.

Dyddiad a Derbyng Swydd

- Bydd yr unigolyn llwyddiannus yn cael ei benodi ar ôl iddo/i ddychwelyd y Ffurflen Derbyn Swydd i Brif Weithredwr Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd (SCHTh) ac ar ôl derbyn cliriad fetio, pa un bynnag yw'r olaf.
- Os na fydd yr ymgeisydd yn cael cliriad fetio yn seiliedig ar Bolisi Fetio Cenedlaethol CCPSH, ni fydd y penodiad yn cael ei gymeradwyo.
- Drwy arwyddo'r Ffurflen Derbyn Swydd, bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn cadarnhau ei f/bod wedi darllen Telerau ac Amodau'r Swydd, ei f/bod yn cytuno â nhw a'i f/bod yn derbyn y swydd.
- Os na fydd y Ffurflen Derbyn Swydd yn cael ei harwyddo yna ni fydd y penodiad yn cael ei gymeradwyo.

Ymddiswyddo a Therfynu Swydd

- Dylai unrhyw Aelod sy'n bwriadu ymddiswyddo rhoi tri mis o rybudd yn ysgrifenedig.

- Dylai'r hysbysiad ymddiswyddo gael ei gyfeirio at Brif Weithredwr SCHTh.
- Gall Prif Weithredwr SCHTh, yn dilyn rhoi rhybudd, derfynu penodiad Aelod o'r Cydbwyllgor Archwilio ac Adnoddau os ydyw'n fodlon bod:
 - Yr Aelod wedi methu â chael cliriad fetio yn seiliedig ar Bolisi Fetio Cenedlaethol CCPSH. (Mae'n rhaid i Aelodau'r Cydbwyllgor gael cliriad fetio bob 7 blynedd).
 - Yr Aelod yn methu â chydymffurfio â Pholisi Fetio Cenedlaethol CCPSH oherwydd nad ydyw wedi llenwi'r ffurflenni fetio o fewn y terfyn amser angenrheidiol.
 - Nad yw'r Aelod yn gallu cyflawni ei dd/dyletswyddau fel Aelod o'r Cydbwyllgor Archwilio oherwydd salwch corfforol neu feddyliol.
 - Os yw'r Aelod wedi bod yn absennol o fwy na thri chyfarfod o'r Cydbwyllgor Archwilio heb reswm digonol.
 - Os yw'r Aelod ym methu â chyflawni ei swyddogaethau fel Aelod o'r Cydbwyllgor Archwilio am unrhyw reswm arall, neu os yw'n anaddas iddo/i barhau fel Aelod o'r Cydbwyllgor Archwilio.

TÂL

Lwfansau

Bydd Cadeirydd y Cydbwyllgor Archwilio'n derbyn lwfans o £2,500 y flwyddyn mewn 12 taliad.

Bydd pob aelod o'r Cydbwyllgor Archwilio'n derbyn lwfans o £2,250 y flwyddyn mewn 12 taliad. Bydd disgwyl i bob aelod gymryd cyfrifoldebau penodedig fel y cytunwyd gyda Chadeirydd y Cydbwyllgor.

Bydd taliad y lwfans yn cael ei atal am ddiffyg mynychu'r cyfarfod heb reswm dilys. Bydd y Prif Weithredwr a SCHTh yn penderfynu yn y pen draw os fydd y lwfans yn cael ei dalu yn dilyn methu â mynychu cyfarfod.

Efallai bydd Aelodau'r Cydbwyllgor Archwilio'n cael cais i ymgymryd â gwaith ychwanegol (yn wahanol i'w cyfrifoldebau arferol). Bydd hwn yn cael ei dalu ar raddfa fesul awr o £25.00. Bydd yn rhaid i hwn gael cymeradwyaeth ymlaen llaw gan un ai'r Prif Swyddog Cyllid neu'r Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau.

Ni fydd lwfansau ychwanegol ar gael i fynychu cyrsiau hyfforddiant na chynadleddau.

Costau Teithio a Threuliau Eraill

Dylid defnyddio'r dull teithio sydd fwyaf ymarferol, economaidd a chynaliadwy (sy'n cynnwys rhannu cerbyd).

Bydd SCHTh yn archebu trafndiaeth gyhoeddus a llety yn ôl y galw.

- Trenau – mae modd trefnu hyn drwy SCHTh, neu fe ad-delir cost tocyn trên sylfaenol ar yr amod bod tystiolaeth ar gael i brofi mai dyma oedd yr opsiwn mwyaf economaidd ar gyfer y dyddiad a'r amser teithio.
- Teithio ar fysiau – telir ar ôl derbyn tocyn bws a ddefnyddiwyd.
- Cerbydau modur a beiciau – fe ad-delir y costau yn unol â chyfradd Cyllid a Thollau EM.
- Taxis – pan nad yw trafndiaeth gyhoeddus ar gael neu'n anymarferol, i'w dalu ar ôl cael derbynneb am gost a dalwyd.

NI FYDD dirwyon, tocynnau goryrru a.y.b. yn cael eu digolledu.

Bydd taliadau teithio'n cael eu gwrthod os gwrthodwyd y cynnig i rannu cerbyd heb reswm digonol.

Y cyfraddau hyn yw'r rhai sylfaenol a nodir gan Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi. Maent yn ddilys o 22 Tachwedd 2012 ymlaen ac yn amodol ar adolygiad.		
Cyfradd milltiroedd mewn cerbyd modur	Teithio ar fusnes mewn cerbyd modur preifat	45c y filltir ar gyfer y 10,000 milltir gyntaf, 25c ar ôl hynny
Cyfradd milltiroedd beic modur	Teithio ar fusnes ar feic modur preifat	24c y filltir
Cyfradd milltiroedd ar gefn beic	Teithio ar fusnes ar gefn beic	20c y filltir

Nid oes darpariaeth ar gyfer talu am yr amser teithio.

Treuliau


Er mwyn cydymffurfio ag anghenion Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi bydd treuliau ond yn cael eu had-dalu pan gyflwynir derbynneb neu anfoneb, heblaw am mewn rhai achosion prin le na roddir derbynebau e.e. ffi toll ar gyfer ffyrdd neu bontydd.

Rhaid cyflwyno pob cais am dreuliau ar ffurflen SCHTh. Ni dderbynnir unrhyw ffurflen hawlio treuliau arall. Bydd pob cais yn cael ei wirio gan y Swyddog Gweithredol a'i awdurdodi gan y Prif Swyddog Cyllid.

Bydd taliadau'n cael eu gwneud yn ar sail y cynllun uchod. Bydd hawliadau a dderbynnir ar ddiwrnod gwaith olaf y mis yn cael eu talu fel arfer ar y unfed diwrnod ar bymtheg o'r mis dilynol, neu, os nad yw'r unfed diwrnod ar bymtheg yn ddiwrnod gwaith, yna'r diwrnod gwaith olaf cyn hynny.

Y dull arferol o dalu unrhyw hawliad fydd ar ffurf BACS. Bydd taliadau treth ac Yswiriant Gwladol yn cael eu gwneud yn unol â'r gofynion cyfreithiol.

Bydd yn rhaid cyflwyno hawliadau traul o fewn 3 mis iddo ddigwydd. Nid oes sicrwydd bydd



HEDDLU GOGLEDD CYMRU
Gogledd Cymru diogelach

NORTH WALES POLICE
A safer North Wales

unrhyw hawliad a dderbynnir ar ôl y dyddiad hwn yn cael ei dalu a bydd yn rhaid iddynt gael eu hawdurdodi'n ychwanegol gan y Prif Weithredwr.

Pensiwn

Nid oes pensiwn.

Atebolrwydd Personol

Nid yw SCHTh na Heddlu Gogledd Cymru'n cynnig unrhyw yswiriant o ran y gwaith fel aelod penodedig y Cydbwyllgor Archwilio. Fodd bynnag, ni fydd rhaid i aelodau unigol, sydd wedi ymddwyn yn onest, rhesymol, didwyll a heb esgeulustod dalu eu hunain am unrhyw hawliad sifil personol fydd yn cael ei wneud o ganlyniad i'w gweithredoedd neu weithredoedd honedig fel rhan o'u gwaith fel aelodau'r bwrdd.

Gwyliau Blynnyddol

Nid oes gwyliau blynnyddol taledig yn gysylltiedig â'r swydd.

Cyhoeddusrwydd

Ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol, bydd manylion lwfansau a dalwyd i bob aelod yn cael eu cyhoeddi yn y Datganiad Cyfrifon ac ar wahân ar wefan y Comisiynydd.